Cynnal Ymddygiad

| Teitl y Cwrs | Disgrifiad | Cyfrwng Cyflwyno | Cynulleidfa darged | Dyddiadau i'w cyflwyno | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Tymor yr Hydref | Tymor y Gwanwyn | Tymor yr Haf |
| Addasu'r Ystafell Ddosbarth i ddiwallu anghenion plant ag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (‘ADHD’) | Amlinelliad:<br>• Beth rydyn ni'n ei wybod? Beth rydyn ni'n ei weld?<br>• Effaith ADHD ar ymddygiad unigolyn<br>• Addasiadau ystafell ddosbarth<br>• Cyflwyno gwers<br>• Strategaethau ar gyfer rheoli ymddygiad | MS Teams | Cynorthwywyr Cymorth Dysgu/Athrawon | Ar gais | | |
| Diwallu anghenion plant sy'n arddangos nodweddion Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn yr Ystafell Ddosbarth Gyffredinol | Nod y cwrs yw datblygu gwybodaeth cyfranogwyr am yr angen am ddull hyblyg o ddysgu plant sy'n arddangos nodweddion Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn eu hystafell ddosbarth gyffredinol. Bydd y cwrs yma'n adlewyrchu arweiniad “Ymddygiad ar gyfer Dysgu.” | MS Teams | Cyrsiau wedi'u teilwra ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli a'r ymarferwyr cynradd/uwchradd i gyd. | Ar gais | | |
| Rhoi cyngor i ysgolion ar sut i weithredu polisi ymddygiad | Rhoi pwyslais ar feddylfryd staff er mwyn creu amgylchedd sy'n ffafriol i ddysgu trwy ddefnyddio dull strwythuredig o reoli ymddygiad. Amlygu strategaethau sy'n ymgorffori'r angen am ddull cyson sy'n seiliedig ar reolau, cadw'r un arferion, canlyniadau a modelu ymddygiad da.<br>1. Yr angen am strwythur yn ein hystafelloedd dosbarth<br>2. Hyblygrwydd o ran y strwythur er mwyn cael y gorau o bobl<br>3. Cynllunio ar gyfer ymddygiad neu’r amgylchedd rhagweithiol<br>4. Monitro ymddygiad<br>5. Cydberthynas, Perthynas a bod yn esiampl dda | Yn yr ysgol | Cynorthwywyr Cymorth Dysgu/Athrawon | Ar gais | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Strategaethau lliniaru i aelodau o staff ysgolion | Nod y cwrs yw datblygu sgiliau cyfranogwyr er mwyn tawelu a lliniaru sefyllfaoedd a allai fod yn anodd, heb orfod defnyddio ymyrraeth gorfforol gyfyngol. Gan gyfeirio'n rheolaidd at y cylch gwrthdaro, bydd cyfranogwyr yn ennyn dealltwriaeth o rôl ganolog emosiynau ar ein holl ymddygiadau, a sut y mae modd iddyn nhw effeithio'n fawr ar y broses benderfynu. | Yn yr ysgol | Cyrsiau wedi'u teilwra ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli a'r holl ymarferwyr cynradd/uwchradd. | Ar gais |
| Datblygu perthnasoedd â rhieni | Mae datblygu perthnasoedd priodol â rhieni yn hanfodol i ddatblygu perthnasoedd â disgyblion sy'n ymddwyn mewn ffordd heriol. Mae'r cwrs hwn yn rhoi trosolwg o bwysigrwydd llwyr y bartneriaeth sydd ei hangen rhwng yr ysgol a rhieni i gynorthwyo â phlant sy'n ymddwyn yn y modd hwn | MS Teams | Cwrs ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso | Ar gais |
| Dewisiadau eraill yn lle gwahardd | Nod y cwrs yw rhannu gwybodaeth am ddewisiadau eraill sydd ar gael yn rhan o ymateb graddedig i wahardd. Ar ddiwedd y cwrs, bydd modd i chi weld:<br>• Yr angen am Gynlluniau Cymorth Bugeiliol o ansawdd, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn y lle cyntaf<br>• Yr angen am sgyrsiau adferol gan gynnwys cyfarfodydd ar ôl digwyddiad<br>• Defnydd ac effeithiolrwydd gwaharddiadau mewnol<br>• Y broses symud wedi'i reoli<br>• Proses Apêl Gwaharddiad Annibynnol | Yn yr ysgol | Cynorthwywyr Cymorth Dysgu ac Athrawon | **Dylai'r cyrsiau yma fod yn orfodol AR ÔL cychwyn cyfarfodydd cam 4, a'u trefnu gyda'r ysgol ar y pwynt hwnnw.** |